Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

**Arfau wedi'u hatafaelu**

5 Ebrill 2017

**Cais am wybodaeth**

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 11 Mawrth, pan wnaethoch ofyn,

1. *A allech chi ddarparu rhestr lawn o arfau a gafodd eu hatafaelu gan ymwelwyr o ddechrau 2014 hyd at ddiwedd 2018, a hynny yn ystod bob blwyddyn ariannol?*
2. *A allech chi nodi'n llawn beth oedd pob arf (hy cyllell, gwn, etc) a'r dyddiad y cafodd pob arf ei atafaelu?*

Nid yw Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn atafaelu arfau. Rydym yn gofalu dros dro am eitemau sydd wedi'u gwahardd o dan ein cod ymddygiad ar gyfer ymwelwyr, gyda chaniatâd y perchennog, er mwyn caniatáu iddynt fynd i mewn i'n hystâd. Os nad yw'r perchennog yn cydsynio i adael yr eitemau hyn gyda ni, ni chaniateir mynediad iddynt i'r ystâd. Ni chedwir cofnod na log mewn perthynas â'r broses hon, felly nid oes gennym unrhyw wybodaeth wedi'i chofnodi sy'n gysylltiedig â'ch cais.

Rhowch wybod imi os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch yr ymateb hwn.

Yn gywir,

**Buddug Saer**
**Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn / Tel: 0300 200 6455
g.Saer@assembly.wales Buddug.Saer@cynulliad.cymru

**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh**

Ystyriwyd eich cais yn unol â’r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i’r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Rhowch wybod imi os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch yr ymateb hwn. Os ydych yn teimlo bod gennych achos i gwyno, dilynwch y canllawiau isod.

A oes gennych achos dros bryderu neu gwyno am yr ymateb i'ch cais am wybodaeth?

Os ydych yn anfodlon ar sut y mae'r Cynulliad wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol o fewn 40 diwrnod gwaith i ddyddiad yr ymateb hwn. Dylid cyfeirio ceisiadau am adolygiad mewnol at y Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth yn:

Ceisiadau-gwybodaeth@cynulliad.cymru neu'n ysgrifenedig i
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Llywodraethu a Sicrwydd
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i’r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gallwch gysylltu â’r Comisiynydd Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad a ganlyn:

> Information Commissioner's Office
> Wycliffe House
> Water Lane
> Wilmslow
> Cheshire
> SK9 5AF